Royal College of Physicians | Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

# Mae angen cynllun gweithredu ar dlodi arnom i frwydro yn erbyn anghydraddoldebau iechyd

## Ein galwad am weithredu ar anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru

**Rhagfyr 2022**

Mae tlodi yn achosi afiechyd ar raddfa fawr iawn. Yn ddiweddar, dywedodd Archwilio Cymru mai dyma'r un her fawr sy'n wynebu pob haen o lywodraeth.

**Mae Coleg Brenhinol y Meddygon yn galw am gynllun cyflawni trawslywodraethol ar dlodi ac anghydraddoldebau sy'n nodi cerrig milltir, amserlenni a thargedau clir, yr hyn y mae pob adran yn Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi, a sut mae gweinidogion yn gweithio gyda'i gilydd i leihau effaith amddifadedd.**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

1. cynnwys ymrwymiadau i leihau anghydraddoldebau a mapio'r gweithgarwch presennol ar iechyd y cyhoedd, anghydraddoldebau, lleihau tlodi a nawdd cymdeithasol mewn un cynllun cyflawni i wella atebolrwydd
2. rhoi blaenoriaeth i ddarparu canllawiau gweithredu cenedlaethol manylach i gyrff darparu lleol a chyflwyno rheoliadau ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd
3. datblygu set gyffredin o fesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau a gwella mynediad at ddata cadarn o ansawdd uchel ar gyfer gwerthuso
4. gwella mynediad at raglenni atal sy'n seiliedig ar ofal sylfaenol a chymunedol, yn enwedig i'r rheini sy'n byw mewn tlodi, a buddsoddi mewn technoleg arloesol, gan gynnwys rhaglenni sgrinio, brechlynnau a thechnoleg y gellir ei gwisgo
5. sicrhau bod cyllid yn annog cydweithio a'i fod yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Ynghyd â Chynghrair Iechyd a Lles Conffederasiwn GIG Cymru, rydym wedi lansio:

- Yn *Mae popeth yn effeithio ar iechyd* ceir disgrifiad o sut mae sefydliadau rheng flaen o bob rhan o Gymru yn gweithio i leihau tlodi, afiechydon ac anghydraddoldebau drwy chwalu rhwystrau ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y celfyddydau, cyngor ar fudd-daliadau a lles, trafnidiaeth, unigrwydd, newid yn yr hinsawdd, llygredd aer a llawer mwy.
- Cafodd *Cofiwch y bwlch: Beth sy'n atal newid?* ei gymeradwyo gan hanner cant o fudiadau ym mis Gorffennaf 2022. Mae'n nodi'r achos dros gynllun trawslywodraethol ar anghydraddoldebau iechyd, yn ystyried beth sy'n arafu'r cynnydd ar hyn o bryd o ran cau'r bwlch gweithredu, ac yn edrych ar rôl llywodraethau o ran mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau dwfn.

wales@rcp.ac.uk
www.rcp.ac.uk/wales
@RCPWales
#EverythingAffectsHealth